# JONES, THOMAS MORRIS ('Gwenallt '; 1859 - 1933), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, llenor a newyddiadurwr

**Enw:** Thomas Morris Jones
**Ffugenw:** Gwenallt
**Dyddiad geni:** 1859
**Dyddiad marw:** 1933
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, llenor a newyddiadurwr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi
**Awdur:** David Myrddin Lloyd

Ganwyd yn nhref Caernarfon. Wedi'r ysgol elfennol fe'i prentisiwyd yn swyddfa'r *Herald*, ond oddeutu 20 oed dechreuodd bregethu. Bu yn ysgol Clynnog a Choleg y Bala. Ordeiniwyd ef yn 1887. Bu'n weinidog ym Magillt (1885-9), Penmachno (1889-99), Bethlehem, Bae Colwyn (1899-1911), ac yng Ngwespyr a Gronant (1911-33). Bu farw mewn ysbyty yng Nghaer, 21 Ionawr 1933, a'i gladdu ym mynwent Coed Bell, Gronant, ar 25 Ionawr. Tra oedd yn weinidog ym Magillt priododd a merch Thomas Roberts, swyddog elusennol; cawsant fab a dwy ferch. Sgrifennodd T. M. Jones lawer i gylchgronau a newyddiaduron Cymru, ond fe'i cofir yn arbennig am ddau lyfr: *Llenyddiaeth fy Ngwlad, sef hanes y newyddiadur a'r cylchgrawn Cymraeg* (Holywell, 1893), a *Cofiant y Parch. Roger Edwards, yr Wyddgrug* (Gwrecsam, 1908). Bu'n fuddugol yn yr eisteddfod genedlaethol yn 1890 ac yn 1891 am draethodau ar y Wasg Gymraeg ac ar y newyddiadur a'r cylchgrawn. Bu hefyd yn gyd-awdur â'r Parch. T. Parry ar y gyfrol *Hanes dechreuad a chynydd y Methodistiaid Calfinaidd yn Ngholwyn Bay a'r cylch* (Dolgellau, 1909).

## Awdur

**David Myrddin Lloyd**, (1909 - 1981)

## Ffynonellau


*Blwyddiadur y Methodistiaid Calfinaidd*, 1934

*Y Genedl*, 30 Ionawr a 6 Chwefror 1933

*Y Goleuad*, 25 Ionawr a 1 ac 8 Chwefror 1933

[y mae mynegai i *Llenyddiaeth fy Ngwlad* (1893) yn *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, vi, 90-101, gan Gwyneth E. Jenkins ]


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734510


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu